Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	18 Hydref 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cynghorydd Barry Mellor (Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant / Liz Grieve (Pennaeth Cymunedau a Chwsmeriaid ac Uwch Berchennog Cyfrifol y Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol)
Awdur yr adroddiad	Jane Hodgson (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd)
Teitl	Adolygu Penderfyniad y Cabinet mewn perthynas â'r Cynllun Penderfyniadau Dirprwyedig Arfaethedig ar gyfer Caffael Tir (Rhydd-ddaliadol a Lesddaliadol) at Ddibenion Dal a Storio Carbon a Gwelliannau Ecolegol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau mewn perthynas â'r cynnig i gyflwyno cynllun penderfyniadau dirprwyedig ar gyfer caffael tir (rhydd-ddaliadol a lesddaliadol) at ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol. Diben y cynllun newydd yw caniatáu i dir gael ei gaffael yn gynt ac yn fwy effeithiol, yn enwedig mewn ocsiwn, fel bod y Cyngor yn cyflawni ei ddatganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol a'r targedau dilynol yn ei Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol (2021/22 - 2029/30).

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen penderfyniad ynghylch a ddylid cyflwyno cynllun penderfyniadau dirprwyedig yn unol â'r cynnig neu beidio.

2.2. Cyflwynir yr adroddiad i'w ystyried ar gais y Cabinet (26/07/22), eitem 5. Mae'r detholiad yn Atodiad 1.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Y Cabinet i gymeradwyo cyflwyno'r cynllun penderfyniadau dirprwyedig newydd ar gyfer caffael tir (rhydd-ddaliadol a lesddaliadol) at ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol fel y cynigir yn Atodiad 3.

3.2. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, wedi deall ac wedi ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 4) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau (10/03/22) sydd angen ymdrin â nhw yn cael eu cynnwys yn Atodiad 2, a rhoir sylw i bob un isod.

4.2. (i) Mae Swyddogion wedi cysylltu â'r sefydliadau isod dros e-bost: Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Clwyd, Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), NFU Cymru, Country Land and Business Association (CLA), Coleg Cambria a Jones Peckover. Cafwyd ymatebion gan Undeb Amaethwyr Cymru a'r CLA. Dim ond y CLA sydd wedi bod ar gael i gyfarfod. Eu sylw ar y cynllun newydd arfaethedig oedd nad eu lle nhw oedd rhoi sylwadau ar bolisi Cyngor Sir Ddinbych. Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu gydag Undeb Amaethwyr Cymru cyn gynted ag y byddant ar gael.

4.3. (ii) Gweler Atodiad 4 i weld ble mae geiriad y Cynllun Penderfyniadau Dirprwyedig Arfaethedig a dogfennau cysylltiedig, ble mae'n ymwneud â chysylltu â chynghorwyr lleol a Grwpiau Ardal yr Aelodau, wedi ei ddiwygio fel y gofynnwyd.

4.4. (iii) Mae capasiti'r Gwasanaeth Cefn Gwlad i ddelio â'r dyletswyddau disgwyliedig a ddaw yn sgil y gwaith dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol wedi cael ei ystyried a'i gynnwys fel rhan o'r cais i'r Bwrdd Cyllideb i ariannu gweithgaredd Cyngor Di-garbon Net a Phositif yn Ecolegol yn 2023/24 . Mae'r ddogfen Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol i fod i gael ei hadolygu'n ffurfiol yn ystod 2023/24, sef ar ôl yr ail flwyddyn o'i darparu. Bydd hyn yn cynnwys amcangyfrifon o'r adnoddau fydd eu hangen i gefnogi gweithgareddau, yn cynnwys gwaith dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol.

4.5. (iv) Mae dosbarthiad tir amaethyddol yn ffurfio rhan o'r Meini Prawf Asesu Tir (Atodiad 7). Arweiniad yw'r matrics - nid yw'n fecanwaith pendant ar gyfer penderfynu a ddylid caffael eiddo penodol. Gellir dod o hyd i wybodaeth ar ddosbarthiad tir yn Sir Ddinbych ar y wefan: **https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-05/dosbarthiad-tir-amaethyddol-cwestiynau-cyffredin.pdf**

4.6. Gweler Atodiad 5 am fanylion ar dargedau Di-garbon Net a Phositif yn Ecolegol 2030 y Cyngor a'r rhesymeg dros gaffael at ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol.

4.7. Gweler Atodiad 6 am fanylion dull presennol y Cyngor o gaffael (rhydd-ddaliadol a lesddaliadol) at ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol a sut fyddai hynny'n edrych dan y cynllun penderfyniadau dirprwyedig arfaethedig hwn.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Bydd y dull arfaethedig yn gwneud cyfraniad uniongyrchol at gyflawni datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol y Cyngor, oedd yn ymrwymo'r Cyngor i ddod yn Ddi-garbon Net erbyn 2030, a'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a fabwysiadwyd wedyn, drwy gefnogi cynnydd yn nifer y tunelli o garbon sy'n cael ei ddal a'i storio ar dir sy'n berchen/cael ei weithredu gan y Cyngor ac ar yr un pryd, cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni statws Cyngor Positif yn Ecolegol erbyn 2030, drwy gynyddu nifer yr hectarau o dir sy'n berchen/cael ei weithredu gan y Cyngor yn y categorïau cyfoeth uchaf y rhywogaethau.

5.2. Bydd y dull yn cefnogi'r Cyngor i gyfrannu at bolisi Llywodraeth Cymru y bydd y sector cyhoeddus yn garbon niwtral erbyn 2030, i Gymru gyflawni ei darged cyfreithiol o leihau allyriadau i Sero Net erbyn 2050, ac mae'n cefnogi dyletswydd statudol y Cyngor dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i "geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth".

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae costau cyfalaf yn cynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chaffael tir e.e. costau prynu, ac unrhyw gostau'n gysylltiedig â throi'r tir yn goetir e.e. plannu coed a gwelliannau ecolegol fel creu cynefinoedd, ffensio ar gyfer da byw. Byddai ceisiadau am grantiau allanol yn cael eu gwneud ble bo'n bosibl i ddarparu cymysgedd o ffrydiau ariannu, ochr yn ochr â chyfalaf a ddyrannwyd i'r Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol bob blwyddyn fel rhan o'r broses gosod cyllideb.

6.2. Mae costau refeniw yn cynnwys ffioedd a thaliadau'n gysylltiedig â chaffael tir na ellir ei gyfalafu a chostau'n gysylltiedig â rheoli'r ased wedi hynny. Ar gyfer creu coetiroedd ar raddfa fawr, defnyddir y dull o adfywio naturiol pan fo hynny'n bosibl. Ar gyfer creu coetiroedd mewn cymunedau defnyddir y dull o ddefnyddio'r 'goeden iawn yn y lle iawn' rhag creu gwaith diangen o gynnal a chadw neu rhag iddynt fethu. Mae'n debygol y bydd y tiroedd sy'n cael eu caffael yn cael eu hychwanegu at bortffolio asedau'r Gwasanaethau Cefn Gwlad a bydd yn cael ei adolygu o safbwynt rheolaeth barhaus. Mae'n bosibl y nodir costau refeniw, a gwneir ceisiadau am grantiau allanol i ychwanegu at gyllidebau rheoli ar draws pob safle.

6.3. Mae'r effaith debygol ar feysydd gwasanaeth eraill fel a ganlyn:

- Asedau Strategol a Chyfreithiol - o ran trafodaethau caffael tir
- Tîm Newid Hinsawdd - rheoli prosiectau i asesu caffael tir posibl a darparu unrhyw weithgareddau dilynol o ran creu coetiroedd a gwella cynefinoedd
- Gwasanaethau Cefn Gwlad - rhoi cyngor arbenigol ar gynlluniau dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol; cynnal rheolaeth weithredol a chynnal a chadw
- Gwasanaethau Democrataidd - rheoli proses hysbysiad o benderfyniad fel bod digon o ymwybyddiaeth rhag ofn y bydd Aelodau'n dymuno galw'r penderfyniad dirprwyedig gweithredol i mewn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Gweler Atodiad 1 am AEL llawn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau (10 Mawrth 2022). Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriadau eraill gyda Chraffu.

8.2. Cysylltwyd â grwpiau allanol i roi eu mewnbwn, yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau. Gweler 4.2 am fanylion.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'n amlwg bod defnydd a chaffael tir at ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol yn rhan allweddol o'r Rhaglen Targed Di-garbon Net y cytunwyd arni. Mae'n bwysig nodi y bydd y dyraniad cyllideb flynyddol yn dal yn destun adroddiadau i'r Bwrdd Cyllideb ac yn y pen draw, cymeradwyaeth y Cabinet a'r Cyngor a bydd prosiectau unigol dros £1m yn dal i fod angen cymeradwyaeth y Cabinet. Barn broffesiynol uwch swyddogion eiddo a'r rhaglen yw y bydd y cynigion hyn yn helpu i sicrhau safleoedd yn gyflym ac effeithiol a helpu'r Cyngor i gyflawni targed 2030. Ar sail hynny, cefnogir y cynigion. Os na fyddant yn cael eu cymeradwyo, yna dylid dwyn ymlaen werthusiad gonest o allu'r Cyngor i fodloni'r targed.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Dangosir y risgiau perthnasol yn Atodiad 8.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Gweler Atodiad 9.